

## Cais gan ddeiliad ty am ganiatâd cynllunio am waith ar / neu ymestyn annedd a chaniatâd adeilad rhestredig

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**Mae'r ffurflen hon wedi'i chynllunio'n benodol i gael ei hargraffu a'i chwblhau all-lein.**

**Cwblhewch y ffurflen hon mewn llythrennau bras gan ddefnyddio inc du i hwyluso'r broses sganio.**

**Fe'ch cyngorir i ddarllen y nodiadau canllaw ategol a'r testun cymorth ar gyfer pob cwestiwn.**

**Os byddai'n well gennych wneud y cais hwn ar-lein, gallwch wneud hynny ar ein gwefan: <https://cymraeg.planningportal.wales>**

### Hysbysiad Preifatrwydd

Darperir ffurflen hon gan Planning Portal ac mae'n seiliedig ar ofynion Llywodraeth Cymru at ddiben fhoi gwybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn unig yn unol â'r ddeddfwriaeth a nodir ar y ffurflen hon ac eitemau perthnasol eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Nodwch, unwaith y byddwch wedi lawrlwytho'r ffurflen hon, na fydd Planning Portal yn gallu gweld y ffurflen na'r data arni. Gwneir unrhyw ddefnydd dilynol o'r ffurflen hon yn ôl eich disgrisiwn chi yn unig, gan gynnwys dewis ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â'r adran datganiad.

Pan ddaw'r ffurflen hon ac unrhyw wybodaeth ategol i law, cyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd eich hysbysu o'i rwymedigaethau o ran prosesu eich cais.

Ewch i'w wefan am wybodaeth bellach am unrhyw ofynion cyfreithiol, rheoliadol a masnachol yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth a diogelu data'r wybodaeth rydych wedi'i rhol.

### Manylion yr Awdurdod Cynllunio Lleol:



### Cyhoeddi ar wefannau Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gall gwybodaeth a roddir ar y ffurflen hon ac mewn dogfennau ategol gael ei chyhoeddi ar gofrestre gynllunio a gwefan yr awdurdod. Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth rydych yn ei rhoi yn gywir ac nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol na sensitif. Os hoffech gael eglurhad pellach, cysylltwch â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn uniongyrchol.

1. Manylion yr ymgeisydd	2. Manylion yr asiant
Teitl: <input type="text"/> Enw cyntaf: <input type="text"/>	Teitl: <input type="text"/> Enw cyntaf: <input type="text"/>
Cyfenw: <input type="text"/>	Cyfenw: <input type="text"/>
Enw'r cwmni (dewisol): <input type="text"/>	Enw'r cwmni (dewisol): <input type="text"/>
Uned: <input type="text"/> Rhif y ty: <input type="text"/> Ôl-ddodiad: <input type="text"/>	Uned: <input type="text"/> Rhif y ty: <input type="text"/> Ôl-ddodiad: <input type="text"/>
Enw'r ty: <input type="text"/>	Enw'r ty: <input type="text"/>
Cyfeiriad 1: <input type="text"/>	Cyfeiriad 1: <input type="text"/>
Cyfeiriad 2: <input type="text"/>	Cyfeiriad 2: <input type="text"/>
Cyfeiriad 3: <input type="text"/>	Cyfeiriad 3: <input type="text"/>
Tref: <input type="text"/>	Tref: <input type="text"/>
Sir: <input type="text"/>	Sir: <input type="text"/>
Gwlad: <input type="text"/>	Gwlad: <input type="text"/>
Côd post: <input type="text"/>	Côd post: <input type="text"/>

### 3. Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig

Disgrifiwch y gwaith arfaethedig:

A yw'r gwaith wedi dechrau yn barod? ☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Os 'Ydyw', nodwch y dyddiad y dechreuodd y gwaith (DD/MM/BBBB):  (Rhaid i'r dyddiad hwn fod cyn dyddiad cyflwyno'r cais)

A yw'r gwaith wedi ei gwblhau? ☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Os 'Ydyw', nodwch y dyddiad y cwblhawyd y gwaith (DD/MM/BBBB):  (Rhaid i'r dyddiad hwn fod cyn dyddiad cyflwyno'r cais)

### 4. Manylion y Safle

Cyfeiriad post llawn y safle

Uned:  Rhif y ty:  Ty:   
Ol-ddodiad:

Enw'r ty:

Cyfeiriad 1:

Cyfeiriad 2:

Tref:

Sir:

Côd post (dewisol):

Os na allwch roi cod post, rhaid cwblhau'r disgrifiad o leoliad y safle. Disgrifiwch y safle mor fanwl â phosibl, er mwyn helpu i'w leoli – er enghraifft "cae i'r Gogledd o Swyddfa'r Post".

Dwyreiniad:  Gogleddiad:

Disgrifiad:

### 5. Cyngor cyn cyflwyno cais

A gafwyd cyngor cyn gwneud cais gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch y cais hwn? ☐ Do ☐ Naddo

Os mai 'Do' oedd eich ateb, rhowch y wybodaeth ganlynol am y cyngor a gawsoch (bydd hynny'n helpu'r awdurdod i ddelio â'r cais yn fwy effeithlon):

Ticiwch os nad ydych yn gwybod y manylion cyswllt yn llawn. Yna, nodwch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl: ☐

Enw'r swyddog:

Cyfeirnod:

Dyddiad (DD/MM/BBBB): (Rhaid i'r dyddiad hwn fod cyn dyddiad cyflwyno'r cais)

Manylion y cyngor a gafwyd cyn cyflwyno'r cais:

### 6. Ffyrdd, llwybrau cyhoeddus, a mynediad i gerddwyr a cherbydau

A gynigir mynediad newydd neu wedi'i addasu i gerbydau neu gerddwyr i'r briffordd gyhoeddus neu oddi arni? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

A yw'r cais yn golygu bod angen dargyfeirio/dileu a/neu greu llwybrau cyhoeddus? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Rhowch fanylion unrhyw hawliau tramwy presennol neu arfaethedig ar y safle neu wrth ei ymyl, yn ogystal ag unrhyw addasiadau i fynediad i gerddwyr a cherbydau, ar eich cynlluniau neu luniadau.

### 7. Bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol

A yw eich cynnig yn ymwneud â:

(i) dymchwel adeilad? ☐ Ydi ☐ Nac ydi

(ii) addasiadau neu gynyddu maint eich to? ☐ Ydi ☐ Nac ydi

(iii) colli coed neu wrychoedd? ☐ Ydi ☐ Nac ydi

Os ydych wedi ateb 'Ydi' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, efallai y bydd angen i chi gyflwyno arolwg bioamrywiaeth i'ch awdurdod cynllunio lleol gyda'ch ffurflen gais.

Bydd eich awdurdod cynllunio lleol yn medru rhoi rhagor o gyngor i chi.

## 8. Manylion Adeilad Rhestredig

Nodwch radd yr adeilad yn y rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig (os yw'n wybyddys). (Noder: ticiwch un blwch yn unig)

Gradd I ☐

Gradd II\* ☐

Gradd II ☐

Ydych chi wedi gwneud cais am dystysgrif gan Weinidogion Cymru sy'n nodi nad ydynt yn bwriadu rhestru'r adeilad?

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

Os mai 'Oes' oedd eich ateb, darparwch wybodaeth am ganlyniad y cais:

## 9. Gwaith dymchwel

A yw'r cais yn cynnwys dymchwel adeilad rhestredig yn gyfan gwbl neu'n rhannol? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb, nodwch a yw'r cais yn cynnwys gwneud y mathau canlynol o waith?

a) Dymchwel yr adeilad rhestredig yn gyfan gwbl ☐ Ydy ☐ Nac ydy

b) Dymchwel adeilad sydd y tu mewn i gwrtil yr adeilad rhestredig: ☐ Ydy ☐ Nac ydy

c) Dymchwel yr adeilad rhestredig yn rhannol: ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb i c):

i) Beth yw cyfanswm cyfaint yr adeilad rhestredig? (cubic metres)	
ii) Beth yw cyfaint y rhan y bwriedir ei dymchwel? (cubic metres)	
iii) Rhowch amcan o'r dyddiad yr adeiladwyd y rhan y bwriedir ei dymchwel?? (MM/BBBB) (Rhaid i'r dyddiad hwn fod cyn dyddiad cyflwyno'r cais)	

Rhowch ddisgrifiad byr o'r adeilad neu'r rhan o adeilad yr ydych yn bwriadu ei (d)dymchwel:

Pam y mae'n angenrheidiol dymchwel neu ymestyn (fel y bo'n berthnasol) yr adeilad(au) a/neu'r strwythur(au) yn gyfan gwbl neu'n rhannol?

## 10. Newidiadau i adeiladau rhestredig

A yw'r gwaith arfaethedig yn cynnwys gwneud newidiadau i adeilad rhestredig? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb :  
(rhaid i chi ateb pob cwestiwn)

a) A fydd gwaith yn cael ei wneud i du mewn yr adeilad? ☐ Bydd ☐ Na fydd

b) A fydd gwaith yn cael ei wneud i du allan yr adeilad? ☐ Bydd ☐ Na fydd

c) A fydd gwaith yn cael ei wneud i unrhyw strwythur neu wrthrych sy'n sownd wrth du mewn neu du allan yr adeilad (neu adeiladau sydd y tu mewn i gwrtil yr adeilad)? ☐ Bydd ☐ Na fydd

Os mai 'Bydd' oedd eich ateb i unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, darparwch gynlluniau, lluniadau a ffotograffau digonol ar gyfer adnabod lleoliad, maint a chymeriad yr eitemau yr ydych yn bwriadu cael gwared â nhw, a darparwch fanylion am yr hyn y bwriedir ei roi yn eu lle, gan gynnwys unrhyw ddulliau newydd o gynnal strwythurau. Nodwch y cyfeirnodau ar gyfer y cynllun(iau)/lluniad(au). Nodwch y cyfeirnodau ar gyfer y cynllun(iau)/lluniad(au) hyn:

## 11. Coed a gwrychoedd

A oes unrhyw goed neu wrychoedd ar y safle neu wrth ymyl y safle arfaethedig a fyddai'n cael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os mai 'Oes' yw eich ateb, efallai y bydd arnoch angen darparu arolwg cyn medru dilysu'ch cais. Gall eich awdurdod cynllunio lleol eich cynghori a oes angen arolwg neu beidio. Dylai pob arolwg coed gydymffurfio â BS5837.

12. Parcio

A fydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar y trefniadau parcio presennol? ☐ Bydd ☐ Na fydd

Os mai ‘Bydd’ oedd eich ateb, darparwch fanylion:

13. Awdurdod Aelod o staff/Aelod

Mewn perthynas â’r Awdurdod Rwy’n:

- (a) aelod o staff
- (b) aelod etholedig
- (c) perthyn i aelod o staff
- (d) perthyn i aelod etholedig

A oes unrhyw ddatganiadau o blith y rhai uchod yn berthnasol i chi? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os ateboch chi ‘Oes’, rhowch enw’r aelod dan sylw, nodwch eich perthynas ag ef/hi a nodwch ei rôl:

14. Tystysgrifau Perchenogaeth

Rhaid llenwi unai tystysgrif A neu B neu C neu CH ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol gyda'r ffurflen gais hon  
Tystysgrif Perchenogaeth - Tystysgrif A

Tystysgrif dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012  
a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Rwyf yn ardystio mai fi/Mae'r ymgeisydd yn ardystio mai ef, 21 diwrnod cyn dyddiad y cais hwn, oedd unig berchennog (ystyr 'perchennog' yw unigolyn sydd â budd rhydd-ddaliol neu fudd prydlesol y mae o leiaf saith mlynedd ohono'n weddill) unrhyw ran o'r tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddia (DD/MM/BBBB)

Tystysgrif perchenogaeth - Tystysgrif B

Tystysgrif dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012  
a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Rwyf yn ardystio/Mae'r ymgeisydd yn ardystio fy mod/bod yr ymgeisydd wedi rhoi'r rhybudd gofynnol i unrhyw un arall (fel y'u rhestrir isod) a oedd, 21 diwrnod cyn dyddiad y cais hwn, yn berchen (ystyr 'perchennog' yw unigolyn sydd â budd rhydd-ddaliol neu fudd prydlesol y mae o leiaf saith mlynedd ohono'n weddill) ar unrhyw ran o'r tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Enw'r perchennog	Cyfeiriad	Dyddiad y rhoddwyd y rhybudd

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

Tystysgrif perchenogaeth - Tystysgrif C

Tystysgrif dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012  
a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Rwyf yn ardystio/Mae'r ymgeisydd yn ardystio:

- Na ellir cyflwyno Tystysgrif A na Thystysgrif B ar gyfer y cais hwn
- Bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gael gwybod enwau a chyfeiriadau'r perchnogion eraill (ystyr 'perchennog' yw unigolyn sydd â budd rhydd-ddaliol neu fudd prydlesol y mae o leiaf saith mlynedd ohono'n weddill) ar unrhyw ran o'r tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo, ond fy mod/bod yr ymgeisydd wedi methu â gwneud hynny

Roedd y camau a gymerwyd fel a ganlyn:

Rwyf fi/Mae'r ymgeisydd wedi rhoi'r rhybudd gofynnol i'r unigolion a nodir isod, sef unigolion, 21 diwrnod cyn dyddiad y cais hwn, a oedd yn berchen ar unrhyw ran o'r tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Enw'r perchennog	Cyfeiriad	Dyddiad y rhoddwyd y rhybudd

Mae rhybudd am y cais wedi'i gyhoeddi yn y papur newydd canlynol (sydd mewn cylchrediad yn ardal y tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo):

Ar y dyddiad canlynol (ni ddylai'r dyddiad fod yn gynharach na 21 diwrnod cyn dyddiad y cais)

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

## 14. Tystysgrifau Perchenogaeth (parhad)

### Tystysgrif perchenogaeth - Tystysgrif Ch Tystysgrif dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Rwyf yn ardystio/Mae'r ymgeisydd yn ardystio:

- Na ellir cyflwyno tystysgrif A, tystysgrif B na thystysgrif C ar gyfer y cais hwn
- Bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gael gwybod enwau a chyfeiriadau unrhyw un arall, 21 diwrnod cyn dyddiad y cais hwn, a oedd yn berchen (ystyr 'perchennog' yw unigolyn sydd â budd rhydd-ddaliol neu fudd prydlesol y mae o leiaf saith mlynedd ohono'n weddill) ar unrhyw ran o'r tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo, ond fy mod/bod yr ymgeisydd wedi methu â gwneud hynny.

Rodd y camau a gymerwyd fel a ganlyn:

Mae rhybudd am y cais wedi'i gyhoeddi yn y papur newydd canlynol (sydd mewn cylchrediad yn ardal y tir neu'r adeilad y mae'r cais yn berthnasol iddo):

Ar y dyddiad canlynol (ni ddylai'r dyddiad fod yn gynharach na 21 diwrnod cyn dyddiad y cais):

Llofnodwyd gna yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

## 15. Ddaliad Amaethyddol

### Tystysgrif daliadau amaethyddol Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 Datganiad Tir Amaethyddol – Rhaid i chi lenwi unai datganiad A neu B

(A) Nid yw'r tir nac unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn berthnasol iddo yn ddaliad amaethyddol neu'n rhan o ddaliad amaethyddol.

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

B) Rwyf i/Mae'r ymgeisydd wedi rhoi'r rhybudd gofynnol i bob unigolyn arall (a restrir isod) a oedd, ar y diwrnod, 21 diwrnod cyn dyddiad y cais hwn, yn denant daliad amaethyddol ar yr holl dir neu ran o'r tir y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo:

Enw'r tenant	Cyfeiriad	Dyddiad y rhoddwyd y rhybudd

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

Dyddiad (DD/MM/BBBB):

## 16. Gofynion Cais am Ganiatâd Cynllunio – Rhestr Wirio

Darllenwch y rhestr wirio ganlynol er mwyn gwneud yn siwr eich bod wedi anfon yr holl wybodaeth sy'n ofynnol i ategu eich cais. Mae'n rhaid bod gan geisiadau am ganiatâd cynllunio yng Nghymru ddogfennau ategol penodol os ydynt yn mynd dros drothwyon penodol. I gael gwybodaeth fanwl, gweler Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 002/2012. Bydd methu cyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol yn golygu bod eich cais yn cael ei ystyried yn annilys. Ni fydd y cais yn cael ei ystyried yn ddilys nes bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cael ei chyflwyno.

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o ffurflen gais sydd wedi'i llenwi a'i dyddio: ☐

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o'r cynllun sy'n dangos y tir y mae'r cais yn berthnasol iddo sydd wedi'i lunio yn ôl graddfa a nodir ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd: ☐

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o wybodaeth neu gynlluniau a lluniadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais: ☐

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o ddatganiad dylunio a datganiad mynediad os bydd y gwaith arfaethedig yn digwydd y tu mewn i ffiniau un o'r ardaloedd dynodedig canlynol: ☐

- Parc Cenedlaethol
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig
- Ardal gadwraeth
- Ardal o harddwch naturiol eithriadol
- Safle Treftadaeth y Byd

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o datganiad o'r effaith ar dreftadaeth: ☐

Y ffi gywir: ☐

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o'r Dystysgrif Perchenogaeth sydd wedi'i llenwi a'i dyddio (Tystysgrif A, B, C neu CH fel y bo'n berthnasol): ☐

Y copi gwreiddiol a 3 copi arall o'r Dystysgrif Erthygl 7 (Daliadau Amaethyddol) sydd wedi'i llenwi a'i dyddio: ☐

17. Datganiad

Rwyf i/rydym ni drwy hyn yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio fel sy'n cael ei ddisgrifio ar y ffurflen hon a'r cynlluniau/darluniau a'r wybodaeth ychwanegol ategol. Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod unrhyw ffeithiau a nodir yn wir ac yn gywir a bod unrhyw farn a roddir yn farn ddiffuant y person sy'n ei roi.

Llofnodwyd gan yr Ymgeisydd:

Neu llofnodwyd gan yr Asiant:

(DD/MM/BBBB):

(ni all y dyddiad hwn fod cyn dyddiad cyflwyno'r cais)

18. Manylion cyswllt yr Ymgeisydd

Rhifau ffôn:

Côd gwlad:

Rhif cenedlaethol:

Estyniad:

Côd gwlad:

Rhif ffôn symudol (dewisol):

Ebost (dewisol)

19. Manylion cyswllt yr Asiant

Rhifau ffôn:

Côd gwlad:

Rhif cenedlaethol:

Estyniad:

Côd gwlad:

Rhif ffôn symudol (dewisol):

Ebost (dewisol)

20. Ymweld â'r safle

A ellir gweld y safle o ffordd gyhoeddus, llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau, neu dir cyhoeddus arall?

☐ Gellir☐ Na ellir

Os bydd angen i'r awdurdod cynllunio wneud apwyntiad i ymweld â'r safle, â phwy y dylai'r swyddogion gysylltu? ((Dewiswch un o'r canlynol yn unig))

☐ Yr asiant☐ Yr ymgeisydd☐ Arall (os yn wahanol i fanylion yr asiant/ymgeisydd)

Os mai 'Unigolyn arall' a ddewiswyd, nodwch fanylion yr unigolyn hwnnw:

Enw cyswllt:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad ebost: